# Cyfleusterau

## Canolfan Addysg Milfeddygaeth

Mae'r Ganolfan Addysg Filfeddygol wedi'i lleoli ar Gampws Penglais, lle ceir ystafelloedd ar gyfer sgiliau clinigol a hyfforddiant ar drin anifeiliaid anwes, yn ogystal ag adnoddau dysgu anatomeg a mannau i'r myfyrwyr drafod ac ymbaratoi cyn dosbarthiadau.








## Canolfan Geffylau'r Lluest

Mae'r Ganolfan Geffylau yn gyfleuster addysgu pwrpasol a Chanolfan Hyfforddi a Gymeradwywyd gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS). Mae'r cyfleusterau'n cynnwys arena dan do o faint rhyngwladol, ysgol awyr agored, man cerdded ceffylau a chorlan gron, blychau rhydd a blychau arddangos a set gyflawn o glwydi neidio a llenwyr.




## Ffermydd y Brifysgol

Mae ffermydd y brifysgol sydd wedi'u lleoli yng Ngogerddan (fferm ddefaid a chig eidion), Morfa Mawr (tir pori isel), Trawsgoed (fferm laeth) a Phwllpeiran (ucheldir) yn ymestyn i gyfanswm o dros 800 hectar, ac yn amrywio o 0-600 metr uwchlaw lefel y môr.

## Pwllpeiran

Mae Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran yn ganolfan ar gyfer astudio ecosystemau ucheldirol sy'n cael eu ffermio. Saif yng nghalon mynyddoedd y Canolbarth ac yn gartref i ddiadell o alpacas.





## Ffug-glinig Milfeddygol

Agoredd ffug-glinig milfeddygol newydd yn swyddogol ym Mhrifysgol Aberystwyth wrth i'r unig ysgol filfeddygaeth yng Nghymru ehangu. Mae gan y clinig newydd mannau aros, archwilio a thrin, ynghyd â'r offer angenrheidiol ar gyfer trin anifeiliaid bach.

# Ymchwil


Ymchwil barhaus yn Ysgol Gwyddorau Milfeddygol Aberystwyth.

Mae ymchwil yn rhan bwysig o'r byd academaidd ac, er mai dim ond pedair mlwydd oed ydyw, mae academyddion yr ASVS yn gwneud effaith sylweddol wrth ymchwilio i faterion pwysig, yng Nghymru a thramor. Dyma restr fer o'r hyn rydyn ni'n ei wneud:

**Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR)**
Mae AMR - lle nad yw pathogenau bellach yn ymateb i feddyginiaethau - yn un o'r problemau iechyd cyhoeddus mwyaf byd-eang ac mae'n cael ei ystyried yn gyfrannwr mawr at filiynau o farwolaethau bob blwyddyn. Mae trin anifeiliaid yn ffactor o fewn hyn felly rydym yn ymchwilio i sut y gallwn sicrhau bod gwrthficrobau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosib, mewn anifeiliaid anwes ac ar ffermydd.

**Metabolomeg a Microbiomau**
Rydym yn defnyddio'r technolegau diweddaraf i archwilio byd yr organebau sy'n byw y tu mewn i anifeiliaid a'r newidiadau biocemegol sy'n gysylltiedig â chlefydau, fel y gallwn ddeall yn well sut mae gwneud diagnosis a rheoli haint.

**Ffermio Da Byw Trachywir**
Rydym yn archwilio sut y gellir defnyddio technoleg ar ffermydd i wneud y gorau o iechyd, lles a chynhyrchiant anifeiliaid, er enghraifft, sut y gallwn ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i ganfod mamogiaid sydd ar fin wyna.






**Iechyd adar**
Rydym yn edrych ar effaith pathogenau mewn pengwiniaid Affricanaidd, eryryod a fwlturiaid sydd mewn perygl. Yn agosach at adref, rydym hefyd yn edrych ar ba afiechydon sydd i'w cael o fewn rhai o'n rhywogaethau mwy cyffredin, megis y drudwy a'r wylan penwaig, ac os yw'r rhain yn peri risg i bobl.

**Iechyd Cyfunol**
Rydym yn defnyddio dulliau Iechyd Cyfunol i ymchwilio i sut y gellir gwell rheoli clefydau milheintiol mewn gwledydd nad oes ganddynt yr adnoddau i fynd i'r afael â nhw.

**Hyfforddiant myfyrwyr**
Mae hyfforddi myfyrwyr - mewn gwyddor filfeddygol a nyrsio milfeddygol - wedi elwa o ddatblygiadau mewn technoleg a dulliau addysgu. Rydym yn ymchwilio i sut y gallwn optimeiddio profiad ac addysg myfyrwyr trwy ddefnyddio "modelau" anifeiliaid ac mewn asesiadau ymarferol (yr hyn a elwir yn "OSCES"). Rydym hefyd yn archwilio'r ffordd orau o ddefnyddio modelau 3-D ac arloesi digidol ar gyfer addysgu anatomeg.

**Beth sydd mewn pellen pen-glin?**
Llawer yn ôl pob tebyg! Rydym yn edrych ar ystod o rywogaethau i ddeall esblygiad y bellen pen-glin fel "switsh gêr", gyda chymhwysiad i lawfeddygaeth ddynol neu brosthetig, a datblygu roboteg.

